

Cyngor Sir CEREDIGION

| | |
|--------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| ADRODDIAD I'R: | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus |
| DYDDIAD: | 19 Hydref 2022 |
| LLEOLIAD: | Ar-lein / Hybrid |
| TEITL: | Cynllun Gweithredu Sero Net – diweddariad ar y cynnydd |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | Rhoi diweddariad ar y cynnydd gyda'r camau sydd yn y Cynllun Gweithredu Sero Net |
| Y RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH: | Cytunwyd y byddai diweddariad ar y cynnydd yn cael ei roi o dro i dro i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu |

CEFNDIR:

Cytunodd cyfarfod Cyngor Sir Ceredigion ar 20 Mehefin 2019 (Cyngor Llawn, 20 Mehefin 2019) i:

- Ymrwmo i wneud Ceredigion yn Awdurdod Lleol carbon sero net erbyn 2030
- Datblygu cynllun clir ar gyfer llwybr tuag at fod yn garbon sero net o fewn 12 mis
- Galw ar Lywodraethau Cymru a'r DU i roi'r gefnogaeth a'r adnoddau angenrheidiol i alluogi gostyngiadau effeithiol o ran carbon

Yn ychwanegol at hyn, ar 5 Mawrth 2020, cyhoeddodd Cyngor Sir Ceredigion argyfwng hinsawdd byd-eang, gan ymrwmo i ateb yr her fwyaf sylweddol sy'n wynebu ein sir a'n planed.

Cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu Sero Net gan y Pwyllgor Craffu (Mai), Cabinet (Mai) a'r Cyngor Llawn (Mehefin) yn 2021 ac fel rhan o hyn cytunwyd y byddai diweddariadau yn cael eu rhoi o dro i dro.

Mae'r ffocws ar hyn o bryd ar y defnydd o ynni ac allyriadau gweithredol (allyriadau Cwmpas 1 a 2), gan fod y rhain yn cael eu cofnodi a'u cyfrif bob blwyddyn fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Cynllun Rheoli Carbon.

Cyflwynwyd diweddariad cynnydd i'r Pwyllgor Craffu ar y 4ydd o Dachwedd 2021. Mae hwn yn ddiweddariad pellach ar y cynnydd gan fanylu ar yr hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i leihau ein hallyriadau, ac adrodd hefyd ar gyfrifiadau allyriadau 2021/22.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Ôl Troed Carbon Gweithredol – Y Cynllun Rheoli Carbon

Mae'r ffigurau ar gyfer allyriadau gweithredol ym mlwyddyn ariannol 2021/22 bellach wedi'u cyfrifo a dyma nhw isod:-

| Cynllun Rheoli Carbon 3 | | | | | | | |
|--------------------------------|-------------------------|-------------------------|-------------------------|-------------------------|-------------------------|-------------------------|----------------------|
| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | CYNLLUN CYFAN |
| | t/CO₂ | t/CO₂ | t/CO₂ | t/CO₂ | t/CO₂ | t/CO₂ | |
| Adeiladau | 5,557 | 5,177 | 4,909 | 4,125 | 4,613 | | -16.99% |
| Goleuadau stryd | 518 | 436 | 326 | 255 | 217 | | -58.11% |
| Fflyd | 1,867 | 1,802 | 1,762 | 1,602 | 1,748 | | -6.37% |
| Milltiroedd Busnes | 761 | 735 | 642 | 180 | 300 | | -60.58% |
| CYFANSWM | 8,649 | 8,150 | 7,639 | 6,161 | 6,878 | | -20.48% |
| | | -5.77% | -6.27% | -19.35% | 11.64% | | |

Mae'r uchod yn cyfateb i leihad cronol o 20.48% ar sail targed o 15% (2017/18 hyd 2021/22)

Roedd pob maes gwasanaeth, ac eithrio goleuadau stryd, wedi profi cynnydd mewn allyriadau yn ystod 2021/22 o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Dyma oedd y duedd oedd i'w disgwyl wrth i adeiladau ailagor yn ystod 2021/22 a Gwasanaethau yn dechrau gweithredu ar lefelau oedd yn nes at yr hyn a fu cyn y pandemig.

Mae'r tabl isod yn nodi allyriadau a chostau fesul categori/gwasanaeth:

| Categori | | 2019/20 | | 2020/21 | | 2021/22 | |
|-----------------------------|---------------------------|------------------|-------------------|------------------|-------------------|------------------|-------------------|
| | | tCO ₂ | Cost £ | tCO ₂ | Cost £ | tCO ₂ | Cost £ |
| Adeiladau a Goleuadau stryd | Adeiladau Dinesig | 502 | £289,722 | 373 | £171,490 | 422 | £198,448 |
| | Addysg | 2,689 | £915,166 | 2,391 | £782,179 | 2,840 | £1,112,639 |
| | Hamdden | 523 | £191,275 | 389 | £135,156 | 374 | £125,602 |
| | Gofal Cymdeithasol | 565 | £187,067 | 510 | £164,633 | 531 | £188,155 |
| | Llyfrgelloedd a'r Gymuned | 236 | £84,074 | 173 | £60,034 | 173 | £69,281 |
| | Adeiladau eraill | 232 | £90,014 | 198 | £73,793 | 166 | £72,363 |
| | Eraill amrywiol | 162 | £99,224 | 91 | £37,085 | 107 | £47,805 |
| | Goleuadau stryd | 326 | £188,917 | 255 | £163,362 | 217 | £163,887 |
| Trafnidiaeth | Fflyd | 1,762 | £660,763 | 1,602 | £530,142 | 1,748 | £686,026 |
| | Milltiroedd Busnes | 642 | £1,032,307 | 180 | £297,738 | 300 | £487,102 |
| Cyfanswm | | 7,639 | £3,738,529 | 6,161 | £2,415,610 | 6,878 | £3,151,309 |

Mae'r tabl uchod yn nodi allyriadau dros dair blynedd i ddangos y duedd o gymharu â'r lefel cyn y pandemig. Fel y gwelir uchod, er bod cynnydd mewn allyriadau yn 2021/22 o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, mae allyriadau yn dal yn mynd ar i lawr yn gyffredinol – maent 9.96% yn is nag yr oeddent yn 2019/20 (cyn y pandemig) a 20.48% yn is nag ym mlwyddyn sylfaen 2017/18.

Yn 2021/22 cyfanswm y gost am ynni a thanwydd a nodwyd ar gyfer cwrpas y Cynllun Rheoli Carbon oedd £3,151,309. Gwariodd Cyngor Sir Ceredigion £735,699 yn fwy ar ynni yn 2021/22 nag y gwnaethont yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2020/21) – mae hyn yn cyfateb i gynnydd mewn gwariant o £735,699. Y rheswm pam fod y cynnydd mewn gwariant o ganran uwch na'r cynnydd mewn allyriadau yw bod prisiau contractau wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn.

Y Grŵp Rheoli Carbon a Newid Hinsawdd – yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai mae'r Cynghorydd Keith Henson wedi dod yn Gadeirydd y Grŵp Rheoli Carbon a Newid Hinsawdd.

Mae llawer wedi mynychu'r Grŵp ar ôl diweddarau'r rhestr o'r sawl sy'n mynychu, gyda phresenoldeb gan gynrychiolwyr o bob plaid wleidyddol yn ogystal â mwy o gyfrannu gan swyddogion. Mae'r Grŵp hwn yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno'r Cynllun Gweithredu Sero Net gan sicrhau fod yr amcanion hyn yn cael eu cyflwyno ledled yr Awdurdod.

Datgarboneiddio Trafnidiaeth (gan gynnwys gwefru cerbydau trydan) – Yn dilyn cais llwyddiannus am gyllid yn 2021 cawsom £420k o'r "Gronfa ar gyfer Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel lawn" sydd wedi'i ddefnyddio ar gyfer datblygu Strategaeth Ceredigion ar gyfer Cerbydau Allyriadau Isel lawn. Mae hyn yn cyd-fynd â Strategaeth Ynni Tyfu Canolbarth Cymru ar gyfer datblygu rhaglenni gwaith cerbydau ULEV. Dyma gam cyntaf y gwaith a fydd yn gweld peiriannau gwefru cerbydau trydan yn cael eu gosod mewn 9 maes parcio ledled Ceredigion. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo a dylai'r pwyntiau gwefru fod ar waith erbyn diwedd mis Hydref.

Mae cais grant ar gyfer seilwaith pellach mewn 8 safle ychwanegol wedi'i gyflwyno i OZEV. Rhagwelir y bydd gwerth y Prosiect tua £280,000 – rydym yn disgwyl am gadarnhad o arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru, a byddwn yn gwario'r arian erbyn diwedd mis Chwefror 2023.

Grant gwefru cerbydau trydan Llywodraeth Cymru/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o £300,000. Mae hwn yn benodol ar gyfer gosod peiriannau gwefru cerbydau trydan yn depos y Cyngor i gefnogi'r gwaith o ddatgarboneiddio'r fflyd. Mae'r gwaith o edrych ar y seilwaith sydd ei angen ym mhrif safleoedd depo'r Cyngor ar y gweill ar hyn o bryd.

Mae'r Adolygiad Fflyd a wnaed gan Wasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru yn 2020/21 wedi dod i law ar ffurf ddrafft a bydd yn helpu i lywio'r gwaith ynghylch datgarboneiddio'r fflyd.

Mae'r Strategaeth ULEV bellach wedi bod drwy'r broses graffu a'r Cabinet ac ar ôl gwneud ambell i newid bach fe fydd ar gael ar wefan y Cyngor.

Prynu Ynni Gwyrdd – Mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i gaffael trydan 'gwyrdd' drwy'r contract trydan corfforaethol. Mae lle i edrych ar gaffael nwy 'gwyrdd' yn ogystal â thanwydd hylifol (e.e. LPG neu biodiesel). Nid oes llawer o fudd o ran y ffigurau cyfrifo carbon ond byddai modd ystyried fel arfer da fod y cyfleustodau rydyn ni'n eu defnyddio yn dod o ffynonellau cynaliadwy 'gwyrdd'.

Ynni Adnewyddadwy – Cynhaliodd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru adolygiad o asedau tir ar safleoedd yng Ngheredigion er mwyn edrych ar y potensial ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae llawer o'r safleoedd y tynnwyd sylw atynt yn destun cyfyngiadau grid sylweddol ond mae ambell i gyfle llai wedi codi o'r broses, gan gynnwys:

- 300kW o PV ychwanegol yn Ysgol Bro Teifi
- 200kW o PV dros y maes parcio yn swyddfeydd Canolfan Rheidol
- 130kW o PV ar safle'r ysgol newydd a fydd yn Nyffryn Aeron

Mae ynni adnewyddadwy bellach yn cael ei gyflwyno'n gyson fel rhan o'r gwaith o adnewyddu adeiladau a hefyd rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

O ystyried cost gynyddol trydan, mae cyfnod ad-dalu'r mathau hyn o gynlluniau yn llawer mwy ffafriol os gallwn ddefnyddio'r trydan a gynhyrchir ar y safle, yn hytrach na'i allforio i'r grid - mae angen sicrhau bod y gosodwaith yn ddigon mawr a bod y lleoliadau'n cael eu dewis ar sail eu gallu i ddefnyddio'r ynni ar y safle.

Adeiladau Sero Net – Yr estyniad newydd yn Ysgol Llwyn yr Eos yw'r adeilad sero net cyntaf sydd ar waith gan y Cyngor. Gosodwyd gwres o'r ddaear a phaneli solar fel rhan o'r cynllun a'r gobaith yw y bydd hyn yn gosod meincnod ar gyfer gwaith adeiladu a wneir gan yr awdurdod yn y dyfodol.

Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif - Wrth ystyried adeiladu ysgolion newydd fel rhan o'r rhaglen, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn anelu at ddatgarboneiddio ac adeiladu adeiladau sero net.

Tyfu Canolbarth Cymru – Mae Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru wedi'i chwblhau ac yn dilyn hyn mae Cynllun Gweithredu Ynni Strategol wedi'i ddrafftio ac mae'n cael ei gylchredeg ar draws y rhanbarth ar hyn o bryd ar gyfer sylwadau. Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Energy Systems Catapult i lunio Cynlluniau Ynni Ardal Leol ar gyfer Ceredigion a Phowys (un i bob awdurdod) – bydd gwaith yn dechrau yn fuan i ymgysylltu â'r gwahanol randdeiliaid ledled y rhanbarth.

Adrodd ar Allyriadau i Lywodraeth Cymru – Yn anffodus ni chafodd y fethodoleg adrodd ei ryddhau mewn pryd i'w chynnwys yn ein Cynllun Sero Net a dyna pam mae ein Cynllun ond yn cynnwys allyriadau gweithredol. Fodd bynnag, rydym bellach wedi llunio ffigurau'r allyriadau ar gyfer 2019/20, 2020/21 a'r ffigurau diweddar ar gyfer 2021/22. Mae'r rhain yn mynd y tu hwnt i ond yr allyriadau cwmpas 1 a 2 a nodir yn y Cynllun Rheoli Carbon. Maen nhw hefyd yn edrych ar allyriadau o drafndiaeth a gwastraff, ac ar gaffael nwyddau a gwasanaethau.

Dyma grynodeb o'r allyriadau hyn:-

| | kg/CO ₂ | |
|---------------------------------------------------------|--------------------|----------------|
| Adeiladau, fflyd ac asedau eraill | 7,678,887 | 16.79% |
| Teithio busnes, cymudo a gweithio gartref | 3,678,573 | 8.05% |
| Gwastraff (a gyfrifir gan allyriadau'r gadwyn gyflenwi) | 0 | 0.00% |
| Cyfanswm yr allyriadau ar y tir | -432,205 | -0.95% |
| Cadwyn gyflenwi - Haen 1 | 34,798,039 | 76.11% |
| Cyfanswm allyriadau | 45,723,294 | 100.00% |

Mae ffynonellau ychwanegol ar gyfer allyriadau wedi cael eu hychwanegu yn 2021/22 sy'n cynnwys allyriad ar gyfer gweithio gartref. Hefyd rydym wedi cynnwys defnydd ynni o'r ystâd gorfforaethol, eiddo gwag ac STWs yn y cyfrifiadau diweddaraf, sy'n golygu bod cwmpas yr adrodd yn fwy eang.

Fel y gwelir uchod, mae ein hallyriadau o'r gadwyn gyflenwi (sy'n cynnwys gwastraff ar hyn o bryd) yn cyfrif am 76% o'n hól troed cyffredinol, sef canran sylweddol o'r cyfanswm. Rhaid nodi bod diffyg sylfaenol yn y ffordd y mae'r allyriadau hyn o'r gadwyn gyflenwi yn

cael eu cyfrifo gan eu bod yn seiliedig ar wariant yn unig. Ni roddir ystyriaeth ar hyn o bryd i gaffael yn lleol, nac i gaffael nwyddau/deunyddiau ag allyriadau isel.

Yn ogystal, y gobaith yw y gallwn ni gael gwybodaeth fanylach am rai o ffynonellau'r allyriadau mewn blynyddoedd i ddod, i sicrhau bod yr hyn a adroddir yn adlewyrchu ein sefyllfa bresennol yn fwy cywir. Bydd hyn hefyd o gymorth i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch unrhyw fesurau ar gyfer lleihau allyriadau yn y dyfodol.

Gan fod gennym ddarlun cliriach bellach o gyfanswm ein hól troed carbon, byddai'n fanteisiol adolygu ein Cynllun i gynnwys y ffynonellau ychwanegol hyn ar gyfer allyriadau. Os ydym am gyflawni ein huchelgais o sero net bydd angen hefyd inni ystyried mesurau i wrthbwysu carbon megis: dal a storio carbon, neu blannu coed. Bydd angen cyflwyno hyn ar y cyd â'r pethau yr ydym eisoes yn eu gwneud: cyflwyno mesurau effeithlonrwydd, ynni adnewyddadwy, rhesymoli, datgarboneiddio'r fflyd, adolygu arferion caffael, gosod seilwaith cerbydau trydan, ac ati.

A wnaed Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam

Crynodeb:

Hirdymor: Bydd y Cynllun Gweithredu Sero Net hwn yn cefnogi uchelgais y Cyngor o garbon sero net 2030.

Integreiddio: Bydd yn helpu i integreiddio a sefydlu gostyngiadau mewn allyriadau ar draws yr Awdurdod.

Cydweithio: Mae'r Cyngor eisoes yn cydweithio â nifer o gyrrff cyhoeddus mewn perthynas â lleihau carbon a chyflawni gostyngiad mewn allyriadau.

Cynnwys: Mae'r Grŵp Newid Hinsawdd a Rheoli Carbon wedi'i hen sefydlu ac yn cael ei fynychu gan Aelodau a swyddogion. Mae hwn yn fforwm cychwynnol da ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, ond mae cyfle i ymwneud yn ehangach ar ôl cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Sero Net hwn.

Atal: Bydd y Cynllun Gweithredu hwn yn cefnogi camau a mesurau i leihau allyriadau carbon gan gyfrannu at leihau effaith newid hinsawdd.

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:

ARGYMHELLIAD: **Nodi'r cynnydd a wneir gyda'r camau sydd yn y Cynllun Gweithredu Sero Net.**